**Cofnodion  cyfarfod o Gyngor Cynuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Fawrth,  18 Chwefror 2020 yn Menter Fachwen, Cwm y Glo ,**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Philip Roberts (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Goronwy Hughes, Haf Williams, Meirwen Lloyd, Cemlyn Jones, Clifford Williams, Iola Parry, Alan Pritchard, Hefin Jones.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Gwion Llwyd, Martin Jones, Richard Robinson,

**Clerc:** Meirion Jones

**Aelod o'r cyhoedd:** Gemma Jones

**577. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croesi i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd ac yn enwedig i Gemma Jones

**578. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**579. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w dargan fel yn briodol

**580. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 21 Ionawr 2020**

Cadarnhawyd cofnodion 21 Ionawr 2020 yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**581. I drafod unrhyw faterion sydd yn codi o'r cofnodion.**

**582. I bennu dyddiad ac amser ar gyfer cyfarfod o'r Pwyllgor Hamdden a Mwynderau.**

Nodwyd nad oedd cyfarfod o'r uchod wedi gynnal ers peth amser.

**Penderfynwyd:**

a) Cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Hamdden a Mwynderau ar 27 o Chwefror 2020 am 7:00yh yn y Sefydliad Coffa;
b) Cyfethol y Cynghorydd Iola Parry i'r pwyllgor

**583 I dderbyn adborth yn dilyn cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar Nos Lun, 3ydd o Chwefror 2020 yn Ysgol Gynradd Llanrug i drafod materion yn ymwneud a problemau traffig yn Llanrug.**

Adroddwyd fod y cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd gan y Cyngor Cymuned wedi bod yn llwyddiannus gyda presenoldeb dda iawn wedi troi fyny yn yr ysgol.

Cafodd Gemma Jones gyfle i adrodd ar ei theimladau hi am y cyfarfod ynghyd a cwsmeriaid roedd yn mynychu ei busnes.

Nodwyd fod y cyngor yn y broses o gasglu adborth a roddwyd gan bawb o'r cyfarfod ynghyd ac e byst a dderbyniwyd a byddai yn fanteisiol i'r cyngor rannu hyn.

Adroddwyd fod ymateb wedi dod oddiwrth Cyngor Gwynedd ar beth maent yn fwriadu ei wneud fel a ganlyn

- Gosod arwyddion 20mya "advisory" ger yr Ysgol Gynradd
- Edrych ar ymarferoldeb trefn unffordd drwy Ffordd yr Orsaf
- Edrych ar Gynllun Gwaharddiadau parcio ar Ffordd yr Orsaf
- Gorfodi Parcio
- Materion Cynnal Priffyrdd a thorri coed
- Gweithio ar y cyd gyda'r heddlu i ddeall beth ydi'r sefyllfa goryrru.

Bydd Cyngor Gwynedd yn adrodd yn ôl i'r cyngor cymuned ar ddiweddariad yr uchod

**Penderfynwyd:**

a) Derbyn y wybodaeth;
b) Paratoi crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd ar gyfer cyfarfod nesaf;
c) Rhannu'r wybodaeth gyda'r cyhoedd
d) Pwysleisio rôl y cyngor cymuned yn hyn ac ei fod yn ymddwyn fel hwylusydd
e) Fod angen parhau i roi pwysau ar Gyngor Gwynedd gan sicrhau fod y mater ddim yn cael ei ysgubo dan y carped fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol

**584 I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod heno. Fodd bynnag roedd wedi anfon yr adroddiad canlynol ymlaen llaw.

Ymddiheuriadau ni fedraf fod yn y cyfarfod y mis yma**.**

**Cyllideb Llywodraeth Cymru**

Cyllideb Llywodraeth Cymru wedi ei gyhoeddi. Mi fydd Cyngor Gwynedd yn derbyn 4.6% o godiad yn y grant eleni. Golygai hyn ni fydd rhaid i'r cyngor wneud gymaint o arbedion ac yr oedd yn disgwyl ei wneud. Er hyn oherwydd y galw ychwanegol ar adrannau yn enwedig Gofal yn meysydd Plant ac Oedolion, ac hefyd

chwyddiant ar gyflogau ac ymrwymiadau eraill, bydd rhaid codi y dreth. Disgwylir i'r cabinet argymell codiad oddeutu 4%.  Mae'n werth nodi fydd hwn ymysg y lleiaf yng Ngogledd Cymru.

**Adeilad Ysgol Cwm y Glo**

Mae'n rhaid i mi adrodd nid oedd y llythyrau i'r Pwyllgor wedi mynd allan y mis diwethaf fel roeddwn wedi cael ar ddallt ac wedi adrodd i chi. Rwyf yn dal i geisio ddod i waelod beth aeth o'i lê. Os bydd diweddariad cyn y Pwyllgor fe wnaf adael i'r Clerc wybod.

**Llwybr aml bwrpas o Pontrug i Llanrug**

Erbyn hyn mae ail gyfarfod o'r Grŵp Llwybr Seiont wedi ei gynnal. Roedd rhai o'r trefnwyr wedi cael cyfarfod hefo'r cyngor sir ac wedi cael y newydd fod y tebygrwydd mae i lawr y ffordd fydd y llwybr yn mynd o Llanrug i Pontrug, ac wedyn ymlaen am Gaernarfon. Mae na gynllun yn barod, swyddogion yn awr yn disgwyl i weld pryd fyddant yn gallu gwneud cais am grant.

**Storm Ciara**

Rwyf yn falch o adrodd ni fydd i'r dŵr o'r afon Goch orlifo dros yr "embankment" ar ôl iddo gael ei godi yn uwch yn ddiweddar. Er hynny mae dal broblem yno, ymddengys fod y dŵr yn llifo yn ôl ar hyd beipen hefo "one way valve". Golygai hyn fod y gerddi cefn nifer o eiddo wedi cael dwr ynddynt, ond nid oedd wedi cyrraedd y tai y tro yma. Rwyf wedi gofyn i'r cyngor ail edrych ar y valve i sicrhau ei fod yn gweithio yn iawn. Roedd y ddau beipen sydd yn mynd o dan stad Dolafon yn llawn bron i'r top, ond eto ddim wedi gorlifo y tro yma.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolchwyd am yr adroddiad

**585. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd**

Adroddwyd nad oedd adroddiad ar gael gan y Cynghorydd Charles Jones ac nad yw ei iechyd yn dda iawn ar hyn o bryd.

**Penderfynwyd:** Anfon gair iddo ar ran y cyngor cymuned i ddymuno gwellhad buan

**586. I dderbyn adroddiad gan y Bwyllgor y Fynwent**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Hefin Jones (Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent) fod y pwyllgor wedi cyfarfod ac wedi gwneud y canlynol:-

a) Rheolau'r Fynwent

Nodwyd fod rheolau'r fynwent wedi ei diweddaru ac fod y rheolau newydd yn llawer mwy perthnasol i amgylchiadau presennol ac i ddyheadau'r cyngor;

b) Ffurflen ar gyfer hawl i gladdu a hawl i osod cofeb

Adroddwyd fod ffurflenni ar gyfer hawl i gladdu wedi eu paratoi ac hefyd ffurflen i ganiatáu hawl i osod cofeb wedi ei baratoi. Ymhelaethwyd fod hyn yn angenrheidiol fel fod rheolaeth gan y cyngor o bwy sydd yn gosod cofebion yn y fynwent ac yn helpu i sicrhau eu bod yn cael eu gosod i safon gyfredol.

c) Ffioedd o 1 Ebrill 2020

Mabwysiadwyd y ffioedd newydd am gladdedigaethau ar gyfer 2020 / 2021 i ddod i rym o'r 1af Ebrill 2020. Fel a ganlyn:

**Agor bedd newydd**

i un sydd wedi byw yn y gymuned am bum mlynedd cyn dyddiad marwolaeth £300

i un sydd ddim wedi byw yn y gymuned am bum mlynedd cyn dyddiad marwolaeth £600

**Ail agor bedd**

i un sydd wedi byw yn y gymuned am bum mlynedd cyn dyddiad marwolaeth £250

i un sydd ddim wedi byw yn y gymuned am bum mlynedd cyn dyddiad marwolaeth £500

**Claddu Llwch**

i un sydd wedi byw yn y gymuned am bum mlynedd cyn dyddiad marwolaeth £200

i un sydd ddim wedi byw yn y gymuned am bum mlynedd cyn dyddiad marwolaeth £400

**Ail agor plot llwch**

i un sydd wedi byw yn y gymuned am bum mlynedd cyn dyddiad marwolaeth £150

i un sydd ddim wedi byw yn y gymuned am bum mlynedd cyn dyddiad marwolaeth £300

Ffi ymchwilio (pawb) £50

d) Adroddwyd fod y gwaith o godi'r cerrig beddi a roddwyd i orffwys yn dilyn archwiliad iechyd a diogelwch wedi cychwyn

e) Holwyd beth oedd y rhaglen i drwsio'r wal ar y ffordd i'r fynwent ac hefyd beth roedd y diweddara ar gyfer mynwent yr Eglwys.

f) Eglurwyd fod ymholiadau wedi ei gwneud ar gyfer cysegru tir yn y fynwent

g) Gofynnwyd os buasai yn bosib torri gwair cyn Sul y Blodau (os byddai'r tywydd yn caniatáu)

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad a mabwysiadwyd yr uchod. O ran (e), y Clerc i anfon e bost i gael dyddiad o pa bryd bydd gwaith ar y wal yn cael ei wneud ac hefyd ar fynwent yr Eglwys

**587. I gael diweddariad ar sefyllfa clwb ieuenctid**

Adroddwyd fod cyfarfod wedi gynnal rhwng y Cadeirydd, Y Cynghorydd Goronwy Hughes, Y Clerc a swyddog o Gyngor Gwynedd i drafod materion yn ymwneud a staffio'r clwb.

**588. I dderbyn diweddariad ar newyddlen y cyngor**

Dosbarthwyd gopi o'r newyddlen i'r aelodau er gwybodaeth. Nodwyd fod angen gwneud man newidiadau a bydd rheini yn cael eu gwneud erbyn Ddydd Mercher ac yna i'r argraffdy.

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth

**589. Ceisiadau Cynllunio**

a) **Rhif y Cais:** C19/0975/23/LL

**Math o Gais:** Cais Llawn

**Bwriad:** Defnyddio tir ar gyfer lleoli uned arlwyo symudol ar gyfer gwerthu bwyd poeth (Defnydd A3)

**Ymgeisydd:** Miss Emma Parry (Cegin Fach Emma)

**Lleoliad:** 1, Tai Arfon, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2AZ

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad, cyn belled fod y cais yn cydymffurfio ac unrhyw amodau gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.

b) **Rhif y Cais:** C20/0097/23/LL

**Math o Gais:** Cais Llawn

**Bwriad:** Codi tŷ deulawr a mynedfa (cynllun diwygiedig i'r cais a ganiatwyd o dan rhif C13/0763/23/LL)

**Asiant:** Dawn Minshall (Custom Design Projects)

**Ymgeisydd:** Craig Ledwards

**Lleoliad:** Plot 2, Hen Safle Modurdy Hafod, Llanrug, , Caernarfon, LL55 4AN

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

Fe ddatganodd y Cynghorwyr Philip Roberts a Goronwy Hughes ddiddordeb yn y cais yma ac ni chymerwyd rhan yn y drafodaeth

**Penderfynwyd:** Dim Gwrthwynebiad

**590**. **Cais am grant - Clwb Nofio Caernarfon**

Derbyniwyd cais am gyfraniad ariannol gan Glwb Nofio Caernarfon ar gyfer 3 o'i aelodau roedd yn mynd i wersyll nofio yn Lanzarote.

**Penderfynwyd:** Cafwyd trafodaeth hir ar y cais yma ac oherwydd nad oedd yn ffitio fewn i bolisi cyfredol y cyngor nid oedd yn bosib cyfrannu.

**591. I ystyried unrhyw sylwadau ar Orchymyn Mannau Parcio**

**Penderfynwyd**: Dim gwrthwynebiad

**592. I dderbyn diweddariad ar y broblem o 'hylif' mewn poteli plastig o gwmpas yr ardal**

Adroddwyd gan y Clerc wedi derbyn ymateb oddiwrth Gyngor Gwynedd am y broblem o hylif mewn poteli ar wasgar ar hyn Llanrug a Cwm y Glo. Ymddengys mai nid problem sydd yn gyfyngedig i'r ardal yma ydi hyn. Mae adran yr Amgylchedd Cyngor Gwynedd yn erdych i fewn i hyn ac hefyd yr adran gorfodaeth stryd

Mae'n debygol fod y person sydd yn gyfrifol a hyn yn dioddef o bulimia nervosa a bydd yn taflu'r poteli ar y llawr yn yr ardaloedd ble bydd yn mynd i redeg

Y cyngor ar hyn o bryd ydi i unrhyw un sydd yn dod ar draws y poteli yma eu adrodd i Gyngor Gwynedd yn syth.

Gellir adrodd am unrhyw boteli drwy law y clerc.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**593. I dderbyn diweddariad ar y tendr torri gwair meysydd chwarae, y fynwent a'r llwybrau cyhoeddus**

Adroddwyd fod y tendrau wedi ei cwblhau ac fod pawb wedi eu hysbysu. Mae'r drefn flaenorol yn parhau~

Meysydd Chwarae a Parc Sglefrio – Mr Patrick McGuiness
Y Fynwent – Mr Wyn Lewis
Llwybrau Cyhoeddus – Mr Huw Owen

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth

**594. Trefniadau bancio'r cyngor – diweddariad ar agor ail gyfrif ac i awdurdodi'r Pwyllgor Cyllid edrych fewn i newid bancwyr y cyngor**

Adroddwyd gan y clerc fod y cyngor wers mis Medi diwethaf wedi ceisio agor cyfrif banc ychwanegol ar gyfer arian i'w ddosbarthu yn sgil cynllun grant disgresiwn y cyngor. Roedd lythyr o gwyn wedi mynd i HSBC ac er fod y banc wedi cydnabod eu bai ac wedi rhoi £100 o iawndal i'r cyngor, nid oedd sôn yn y llythyr am sut neu pa bryd byddai'r cyfrif ar agor. Anfonwyd llythyr arall i'r banc i gwyno ac eto cydnabyddid gan y banc eu bod ar fai ac yn rhoi £100 arall i'r cyngor. Dywedodd y person a ffoniodd ei fod yn awr angen cais newydd i agor cyfrif oherwydd nad oedd yn yr un enw a'r un gwreiddiol.

Yn sgil y diffyg ymateb gan HSBC a'r drafferth o agor y cyfrif, gofynnir i'r cyngor awdurdodi'r pwyllgor cyllid i edrych fewn i symud trefniadau bancio'r cyngor oddiwrth HSBC.

**Penderfynwyd:** Y Pwyllgor Cyllid i edrych fewn i'r posibilrwydd o symud banc ynghyd a trefniadau bancio'r cyngor gan ystyried eu hwylustod ayyb.

Daeth y cyfarfod i ben am 21:10

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 17 o Fawrth 2020